Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Paratoi ar gyfer eich arolygiad hylendid bwyd cyntaf

Mae'r dudalen hon yn rhoi gwybodaeth am yr hyn a all ddigwydd yn ystod arolygiad hylendid bwyd. Darllenwch yr holl dudalennau yn y canllaw hwn i sicrhau bod gennych yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i redeg eich busnes bwyd.

Fel busnes bwyd newydd sy'n gweini neu'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i'r cyhoedd, bydd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol i chi.

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn rhoi sgôr o 0 i 5 i fusnesau, fel y gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus ynghylch ble i brynu a bwyta bwyd.

Dyma ystyr y sgoriau hylendid:

- 5 – mae'r safonau hylendid yn dda iawn
- 4 – mae'r safonau hylendid yn dda
- 3 – mae'r safonau hylendid yn foddhaol ar y cyfan
- 2 – mae angen gwella'r safonau hylendid rhywfaint
- 1 – mae angen gwella'n sylweddol
- 0? – mae angen gwella ar frys

Bydd eich sgôr yn seiliedig ar yr hyn a welir ar ddiwrnod yr arolygiad. Bydd swyddogion awdurdodedig o dîm Diogelwch Bwyd eich awdurdod lleol yn cynnal yr arolygiad. Bydd y swyddog awdurdodedig fel arfer yn Swyddog Diogelwch Bwyd neu Swyddog Iechyd yr Amgylchedd o'ch awdurdod lleol, nid yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd y swyddog yn arolygu eich safle i wirio a yw eich busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd a'i fod yn cynhyrchu bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta.

Edrychwch ar ein canllawiau i fusnesau ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) i gael mwy o wybodaeth.

Mae ein tudalen Dechrau eich busnes bwyd yn ddiogel yn cynnwys gwybodaeth am arferion hylendid bwyd da y gallwch eu defnyddio yn eich busnes. Mae gennym hefyd amrywiaeth o becynnau gwybodaeth bwyd mwy diogel, busnes gwell i helpu i gefnogi busnesau yng Nghymru a Lloegr i reoli diogelwch bwyd. Dylai busnesau yng Ngogledd Iwerddon gyfeirio at ein canllawiau Arlwyo Diogel.

## Trefnu arolygiad hylendid bwyd

Pan fyddwch yn cofrestru fel busnes bwyd gyda'ch awdurdod lleol, bydd eich tîm diogelwch bwyd lleol yn cael gwybod yn awtomatig. Nid oes angen i chi gysylltu â nhw gan y bydd arolygiad yn cael ei drefnu os oes angen. Sylwer - bydd busnesau sy'n peri risg uwch yn cael eu blaenoriaethu dros fusnesau risg isel, ac mewn rhai achosion, gall gymryd sawl mis nes bydd eich busnes yn destun arolygiad am y tro cyntaf.

### Arolygiadau hylendid bwyd dirybudd

Fel arfer bydd swyddogion awdurdodedig o'ch awdurdod lleol yn cyrraedd heb drefnu apwyntiad.

Mae ganddynt yr hawl i fynd i mewn ac arolygu eich safle ar unrhyw adeg resymol. Mae'n rhaid iddynt ddangos cerdyn adnabod cyn dechrau cynnal yr arolygiad.

Ar gyfer busnesau bwyd sy'n gweithio o gyfeiriad cartref, bydd swyddog awdurdodedig yn gwneud trefniadau i ymweld â'ch cartref i gynnal arolygiad hylendid bwyd.

## Beth sy'n digwydd yn ystod arolygiad hylendid bwyd

Fel rhan o'r arolygiad hylendid bwyd, bydd swyddogion awdurdodedig yn edrych ar:

- eich safle
- hylendid wrth drin bwyd
- eich system rheoli diogelwch bwyd

Yn ogystal ag edrych ar eich cofnodion a gweithdrefnau, efallai y bydd swyddogion yn cymryd samplau bwyd neu'n tynnu lluniau ohonynt.

Nid yw'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymdrin â'r canlynol:

- ansawdd eich bwyd
- gwasanaeth cwsmeriaid
- sut caiff y bwyd ei gyflwyno a'ch sgiliau coginio

Nid yw arolygwyr yn ymweld i ddod o hyd i ddiffygion nac i gau eich busnes. Maent yn arolygu er mwyn eich cefnogi i ddarparu bwyd diogel. Byddant yn rhoi arweiniad ac adborth ac yn awgrymu camau unioni i'ch helpu i wneud pethau'n iawn os nad ydych yn cydymffurfio â chyfraith bwyd. Cofiwch, mae'r sgôr uchaf o 5 o fewn cyrraedd pob busnes.

Mae mwy o wybodaeth am arolygiadau ac eithriadau ar ein tudalennau'r cynllun sgorio hylendid bwyd ar gyfer busnesau.

I gael mwy o wybodaeth am yr hyn y mae swyddogion yn ei wneud yn ystod arolygiad, gweler ein blogiau:

- Beth i'w ddisgwyl yn ystod arolygiad – gair gan Swyddog Diogelwch Bwyd
- Beth sy'n digwydd yn ystod arolygiad busnes bwyd? Gwnaethom ofyn i Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd
- Beth allwch chi ei ddisgwyl yn ystod arolygiad busnes bwyd? Dyma Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn esbonio

Gallwch hefyd wylio'r fideo hwn am arolygiad arferol gan Gyngor Dinas San Steffan.

## Beth sy'n digwydd ar ôl arolygiad

Byddwch yn cael llythyr cadarnhad yn amlinellu unrhyw welliannau angenrheidiol y gallai fod angen i chi eu gwneud. Os bydd angen i chi wneud rhai newidiadau i'ch ffordd o weithredu, byddwch yn cael cyfnod rhesymol o amser i wneud yr addasiadau perthnasol. Mae hyn oni bai

bod risg uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Gweler ein tudalennau Sgoriau Hylendid Bwyd i Fusnesau i gael mwy o wybodaeth, gan gynnwys:

- Pryd, ble a phwy sy’n cyhoeddi eich sgôr hylendid bwyd?
- Gwneud cais am arolygiad ail-sgorio a mor aml y caiff safleoedd eu harolygu
- Arddangos eich sgôr hylendid bwyd